Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Nodau Dysgu

Mae'r nodyn hwn yn darparu canllawiau ar sut i ddefnyddio'r pedwar adnodd addysgu a'r fideos byr sy'n gysylltiedig. Gall athrawon ddefnyddio'r adnoddau hyn i helpu disgyblion i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas ac yn barod i bleidleisio am y tro cyntaf.

## Trosolwg

Bydd fideo byr ac adnoddau cysylltiedig yn helpu dysgwyr i ddeall sut y cafodd y Senedd ei sefydlu, beth mae'n ei wneud, pwy sy'n eu cynrychioli, a'u hawliau pleidleisio.

Bydd pedwar thema allweddol yn arwain dysgwyr i archwilio materion democratiaeth, cynrychiolaeth, deddfu a gweithredu cyfrifol:

- Hanes y Senedd
- Pwerau'r Senedd
- Aelodau o'r Senedd
- Pleidleisio

## Cefndir

Yn 2020, cafodd yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd ei ostwng i 16 ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru basio cyfraith newydd, yr un gyfraith â newidiodd ei henw i Senedd Cymru hefyd.

Bydd etholiad nesaf y Senedd yn cael ei gynnal ar 7 Mai 2026, a chynhelir etholiadau bob pedair blynedd ar ôl hynny.

## Crynodeb o'r gweithgareddau

### Gweithgaredd 1: Hanes datganoli yng Nghymru

Bydd disgyblion yn gwylio'r fideo ac yn defnyddio adnodd 1, *Hanes datganoli yng Nghymru* i baru'r dyddiadau cywir â digwyddiadau allweddol yn hanes creu senedd i Gymru. Defnyddiwch yr adnodd Llinell Amser fel cymorth.

**Atebion:**

**A: 2020** | **B: 1950** | **C: 1997** | **Ch: 1832** | **D: 1999** | **Dd: 1965** | **E: 950**

## Gweithgaredd 2: Aelodau o'r Senedd

Bydd disgyblion yn gwylio'r fideo ac yn defnyddio'r adnodd 3, *Diwrnod ym Mywyd Aelod* i wneud eu penderfyniadau eu hunain fel cynrychiolwyr.

## Gweithgaredd 3: Pwerau'r Senedd

Bydd disgyblion yn gwylio'r fideo ac yn defnyddio adnodd 2, *Pwerau'r Senedd* i ddysgu am rai o'r gwahanol bwerau sydd gan y Senedd o'i chymharu â Senedd y DU a Llywodraeth y DU. Mae pynciau posibl i'w trafod yn rhan o'r gweithgaredd.

**Atebion:**

### Pwerau'r Senedd:

Iechyd, Addysg, yr Amgylchedd, Tai, y Gymraeg, Diwylliant, Twristiaeth, Ffyrdd a Thrafnidiaeth, Chwaraeon, Tai, Ffermio.

### Senedd y DU:

Cyfryngau, Y gofod, Plismona, Ynni niwclear, Trafnidiaeth yn yr awyr, Amddiffyn.

## Gweithgaredd 4: Pleidleisio

Bydd disgyblion yn gwylio'r fideo ac yn defnyddio adnodd 4, *Pleidleisio*, ar gyfer trafodaeth grŵp/dosbarth.

**Atebion:**

| | |
|---|---|
| roi gwaed? | **17** |
| prynu anifail anwes? | **16** |
| cofrestru i bleidleisio? | **14** |
| cael eich dal yn gyfrifol am droseddu? | **10** |
| dod yn lleian neu'n fynach? | **18** |
| hedfan awyrennau masnachol? | **21** |
| mabwysiadu plentyn? | **21** |
| bod yn berchen ar neidr wenwynig? | **18** |
| bod yn berchen ar dir, prynu eiddo a gwneud cais am forgais? | **18** |
| pleidleisio yn yr Etholiad Senedd? | **16** |
| pleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol? | **18*** |

* ond gallai newid i 16 ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol nesaf!